**CYD-BWYLLGOR CRAFFU DINAS-RANBARTH BAE ABERTAWE**

**(Multi-Location Meeting - Council Chamber, Port Talbot & Microsoft Teams)**

**Aelodau sy’n Bresennol:** **Dydd Iau, 25 Gorffennaf 2024**

| | |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd T.Bowen** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd D.Cundy** |
| **Cynghorwyr**: | M.Bowen, G.Morgan, R.Sparks, C.Holley, A.Dacey a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy’n Bresennol:** | T.Rees, Jonathan Burnes, L.Willis, S.Aldred-Jones a/ac O.Gavigan |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr |
| **Arsylwyr:** | |

1. **PENODI CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd mai'r Cyng. Tim Bowen fyddai Cadeirydd y Pwyllgor.

Cynigiwyd, eiliwyd a chytunwyd mai'r Cyng. Deryk Cundy fyddai Is-gadeirydd y Pwyllgor.

2. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a chroesawodd aelodau newydd y pwyllgor. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod y Gwasanaethau Democrataidd wedi derbyn ymddiheuriadau gan y Cynghorydd S Yelland a'r Cynghorydd J Curtice.

3. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 13/02/24 a 16/04/24 fel cofnod cywir o'r gweithrediadau.

5. **ARCHWILIO CYMRU - ASESIAD SICRWYDD A RISG**

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y derbyniwyd ymddiheuriadau gan swyddogion Archwilio Cymru. Rhoddodd Jonathan Burnes drosolwg i'r aelodau o'r broses a chanfyddiadau'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y cynhaliwyd Asesiad Sicrwydd a Risg Archwilio Cymru rhwng mis Hydref a mis Mawrth 23-24 a phwrpas yr asesiad oedd edrych ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli presennol y Fargen Ddinesig a sut y mae'n cefnogi'r gwaith o gyflawni portffolio'r Fargen Ddinesig yn effeithiol ac effeithlon.
Esboniodd swyddogion fod Archwilio Cymru wedi cynnal adolygiad o ddogfennau, gan samplu dogfennau'r cyd-bwyllgor a'r swyddfa bortffolio.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd fod cyfres o gyfweliadau, gydag amrywiaeth o bobl allweddol gan gynnwys Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Wendy Walters, Chris Moore, Swyddog Adran 151, Cadeirydd y Bwrdd Strategaeth Economaidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro.

Eglurodd swyddogion hefyd fod cyfres o weithgorau lle'r oedd arweinwyr o'r pedwar awdurdod lleol, prif weithredwyr, uwch-reolwyr o'r ddau fwrdd iechyd, prifysgolion a chyfarwyddwyr adfywio yn bresennol, a dyluniwyd y gweithgor hwn i geisio ateb y cwestiwn, 'a yw trefniadau rheoli rhaglenni'n cefnogi darparu portffolio'r Fargen Ddinesig yn effeithiol ac effeithlon?'
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Archwilio Cymru wedi canfod bod y trefniadau yno i'w cefnogi. Dywedodd hefyd bod yna fewnwelediad clir i'r portffolio o ran cynnydd, ond mae cyfle i adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau eu bod yn addas i'r diben wrth symud ymlaen.

Esboniodd swyddogion nad yw Archwilio Cymru'n gwneud argymhellion yn ffurfiol, ond maent yn edrych ar feysydd ffocws. Bydd swyddogion yn creu cynllun gweithredu ac yn asesu'r meysydd ffocws hynny yn ei erbyn i edrych ar y diweddariadau o ran cynnydd.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod 16 o feysydd ffocws yn y cynllun gweithredu; y graddfeydd amser, pwy fydd yn arwain arnynt, y statws, unrhyw ddibyniaethau, ac adroddir ar bob un o'r rheini bob chwarter i roi gwybodaeth ynghylch sefyllfa'r Fargen Ddinesig gyda'r rheini.
Mae 8 ar y gweill ar hyn o bryd, ac nid yw 8 wedi cael eu rhoi ar waith hyd yn hyn. Dywedodd swyddogion fod y penawdau ynghylch eu sefyllfa'n ymwneud â chydymffurfio â'r cyd-bwyllgor corfforaethol,

gwerthuso darganfod manteision, cam cyflwyno'r portffolio, trefniadau rheoli portffolio, pwrpas y Bwrdd Strategaeth Economaidd, rôl craffu rhanbarthol, gwersi a ddysgwyd a chyfleoedd rhanbarthol ehangach.

Roedd yr aelodau'n poeni am bwynt AW16 a gofynnwyd a oedd dyblygu o ran y trefniadau sy'n ymwneud â'r data sy'n cael ei gasglu a'i adrodd yn lleol ac roedd hefyd yn cael ei gasglu a'i adrodd ar lefel ranbarthol, gan arwain at aneffeithlonrwydd posib.

Nododd yr Aelodau, ym mhwynt AW15, fod yr adroddiad yn adlewyrchu a oes mwy o gyfle i godi proffil effaith y Fargen Ddinesig gyda'r cyhoedd. Teimlai'r aelodau ei bod yn bwysig iawn ystyried y symiau o arian dan sylw a gofynnwyd pa fath o gynlluniau sydd gan swyddogion ar gyfer gwneud hynny.

Mewn perthynas ag AW16, dywedodd swyddogion ei fod yn dibynnu ar ddehongliad pobl ohono, ond gellid eu hystyried fel dyblygiad oherwydd mae'r un wybodaeth yn cael ei defnyddio ar gyfer dwy lefel wahanol. Mae swyddogion yn mynd i adolygu'r holl ofynion adrodd ar gyfer pob prosiect a rhaglen gyda'r trefniadau portffolio i sicrhau bod dyblygu neu aneffeithlonrwydd neu aneffeithlonrwydd posib yn cael eu dileu.

O ran AW15 roedd swyddogion yn cytuno â'r cynghorwyr bod llawer o arian yn cael ei wario a bod llawer o weithgarwch yn digwydd, ond efallai na fydd rhai o'r rhain mor weladwy i aelodau'r cyhoedd ag eraill.

Esboniodd swyddogion eu bod yn ceisio mynd i gymaint o ddigwyddiadau â phosib oherwydd bod canfyddiad y cyhoedd o ran y cyhoedd ehangach wedi bod yn fwy cysylltiedig â busnes hyd yn hyn, ond mae swyddogion wedi adnewyddu eu cynllun cyfathrebu marchnata ac maent yn edrych ar ba ddigwyddiadau y gwnaethom eu cyflwyno ar gyfer y flwyddyn ariannol hon wrth symud ymlaen.

Esboniwyd wrth yr aelodau fod y 'digwyddiadau Cwrdd â'r Fargen Ddinesig' ym mhedair ardal y rhanbarth ac roedd cyfle i fusnesau ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dywedodd swyddogion hefyd eu bod yn ceisio ymgysylltu â'r cyhoedd trwy'r fforymau, digwyddiadau a datganiadau i'r wasg a'r gwaith cyfathrebu maent yn ei wneud sydd hefyd yn cynnwys llawer o waith gyda'r cyfryngau cymdeithasol hefyd.

Awgrymodd swyddogion y gallent ddarparu diweddariad gan drafod y cyfleoedd eraill sydd ar gael o ran safbwynt y cyhoedd ar y Fargen Ddinesig.

Awgrymodd yr aelodau wrth swyddogion y gellid gwneud cyflwyniad 15 munud ar yr hyn sy'n digwydd yn y Fargen Ddinesig i bob un o'r cynghorau oherwydd yr aelodau yw'r rhai a fydd yn gorfod gwerthu hyn i'r cyhoedd.

Nodwyd yr adroddiad.

## 6. **ADRODDIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd Matt Holder, Pennaeth Archwilio Mewnol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, yr adroddiad ar ganfyddiadau a chamau gweithredu adolygiad Archwilio Mewnol 2022-23 i Bortffolio Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Eglurodd ei fod yn rhan o'r gwaith archwilio mewnol a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

Dywedodd Matt Holder mai ef a'i dîm oedd yn gyfrifol am roi sicrwydd bod trefniadau digonol ar waith i sicrhau y gall person sy'n ymdrin â Bargen Ddinesig Bae Abertawe barhau i weithredu a sicrhau bod y canlyniad yn cyflawni'r hyn y mae aelodau am ei gyflawni.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod swyddogion wedi cyflwyno cwmpas yr archwiliad i'r Cydbwyllgor ar 16 Tachwedd lle cytunwyd arno. Yna dechreuwyd gwneud y gwaith ar ddiwedd chwarter pedwar oherwydd problemau o ran amser.

Esboniodd Matt Holder, fel rhan o'i rôl mae'n ceisio cael cymaint o sicrwydd â phosib, felly mae'r cwmpas yn eithaf eang. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod swyddogion yn edrych ar y trefniadau llywodraethu, rheoli prosiectau a'r trefniadau monitro a'r holl waith sy'n ymwneud â hynny. Mae swyddogion hefyd yn edrych ar y trefniadau rheolaeth ariannol a rheoli risg. Maent yn gwneud hyn i edrych ar y rhanbarth ar y cyd yn hytrach nag edrych ar brosiectau penodol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod yr holl waith yn cael ei wneud gan ddefnyddio ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a phethau y gallant eu mesur yn unig.

Eglurodd Matt Hoder eu bod wedi penderfynu ar sgôr sicrwydd archwilio sylweddol sef y sgôr uchaf y bydd swyddogion yn ei rhoi. Mae hyn oherwydd na fyddant byth yn rhoi sicrwydd llawn oherwydd eu bod yn gwneud y prawf ar ffurf sampl gan nad oes ganddynt y gallu i wneud sampl lawn o bopeth sy'n digwydd.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod sicrwydd sylweddol yn golygu bod system gadarn o drefniadau llywodraethu, rheolaeth fewnol, rheolaeth ariannol a rheoli risg ar waith gyda'r rheolyddion yn gweithredu'n effeithiol ac yn cael eu rhoi ar waith yn gyson i gefnogi cyflawniadau'r amcanion yn y maes a archwilir.

Dywedodd swyddogion eu bod wedi nodi'r pwynt yn yr eitem ddiwethaf am ymgysylltu â'r cyhoedd a dyblygu a byddant yn ystyried hynny pan fyddant yn gwneud y cynllun archwilio ar gyfer 24/25.
Dywedodd swyddogion y byddant yn ystyried adroddiad Archwilio Cymru a bydd meysydd a fydd yn cael eu hystyried a'u dilyn i sicrhau bod yr arfer gorau'n cael ei gyflwyno ar draws y rhanbarth.
Teimlai'r swyddogion ei fod yn adroddiad dymunol ar y cyfan.

Nodwyd yr adroddiad.

7. **DIWEDDARIAD AR GYNNYDD CARTREFI FEL GORSAFOEDD P?ER**

Oonagh Gavin yw rheolwr y prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer.
Rhoddwyd cyflwyniad byr i'r aelodau am yr adroddiad a ddarparwyd.
Gofynnodd yr aelodau a yw'r tîm Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer wedi creu unrhyw dai yn ogystal â'r fflatiau ar lan Môr Aberafan?
Dywedodd swyddogion fod llawer o weithgarwch yn digwydd ar draws y rhanbarth ac maent yn coladu nifer y tai yn rheolaidd.
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod tai Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer eisoes yn bodoli ar draws pob un o'r pedair ardal awdurdod lleol.
Dywedodd yr aelodau ei bod yn dda gweld bod y fenter Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer mor gadarnhaol a bod cymaint o ganlyniadau eisoes.
Holodd yr Aelodau a oedd y cyllid gwerth £3.7 miliwn wedi'i ddyrannu, ei ddefnyddio a'i ddatblygu. Gofynnodd yr aelodau a yw'r swyddogion bellach yn edrych ar ddefnyddio arian ychwanegol o'r gronfa ffyniant gyffredin ac a yw'r prosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn parhau i dyfu.
Nododd yr aelodau hefyd fod yr adroddiad yn nodi bod 1804 o swyddi wedi eu creu a gofynnwyd am amlinelliad ynghylch ble mae'r swyddi hynny.
Gofynnwyd hefyd i swyddogion a oes unrhyw waith yn cael ei wneud ynghylch systemau adfer dŵr glaw ac a yw'n cael ei gynnwys mewn unrhyw eiddo Cartrefi Fel Gorsafoedd Pŵer.
Eglurodd swyddogion mai 1800 o swyddi yw targed y prosiect ac nad yw hynny wedi'i gyflawni eto. Mae'n rhan o'r ymarfer olrhain a fydd yn parhau wrth i'r prosiect ddatblygu. Eglurodd swyddogion ei bod hi'n

gynnar o ran coladu'r data hwnnw ond mae swyddogion yn gobeithio o fewn y misoedd nesaf bydd ganddynt ragor o fanylion am hynny. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y prosiect wedi derbyn yr arian yn hwyr y llynedd ac mae rhai o'r contractau hynny ar gyfer adeiladu'r tai neu ôl-osod tai yn mynd drwy'r cam contractio, ond dywedodd swyddogion fod hynny'n creu swyddi.

Gofynnodd yr aelodau a yw'r holl arian o gyllid y fargen ddinesig wedi'i ddyrannu eisoes? Esboniodd y swyddogion nad oedd hynny wedi digwydd. Cyfeiriodd swyddogion at Gronfa Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi ac maent yn gweithio ar gwmpas ac ymarfer y gronfa honno ac esboniwyd bod gan y prosiect £7 miliwn ar gael i'w ddefnyddio. Dywedodd swyddogion hefyd eu bod wedi dyrannu £3.7 miliwn o'r cyfanswm sydd ganddynt yn y Gronfa Cymhellion Ariannol, sef £5.75 miliwn.

Nododd yr aelodau fod yr adroddiad yn dweud nad yw swyddogion wedi cyhoeddi rhestr lawn o gynlluniau hyd yn hyn oherwydd efallai bod materion cyfreithiol yn digwydd yn y cefndir a gofynnodd aelodau pryd roeddent yn debygol o weld rhestr lawn o gynlluniau.

Nododd yr Aelodau fod deg swydd eisoes wedi cael ei chreu ac ers mis Chwefror mae'r buddsoddiad wedi cynyddu tua £15 miliwn yn ystod y misoedd diwethaf, ond nid yw nifer y swyddi wedi cynyddu. Roedd yr aelodau'n gobeithio y byddant ar gael ar-lein yn fuan.

Ailadroddodd swyddogion y byddai'n cymryd ychydig o amser i gasglu'r data swyddi a dywedodd fod pethau wedi symud ymlaen ers mis Mawrth pan nododd swyddogion eu sefyllfa o ran y dogfennau cyfreithiol, a byddant yn gallu cyhoeddi'r cynlluniau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Gofynnodd yr aelodau am y batris Duracell y crybwyllwyd yn yr adroddiad a gofynnwyd os ydynt ar gyfer cyfleusterau storio tai a oes profion diogelwch yn cael eu cynnal arnynt ac a oes gan swyddogion unrhyw sicrwydd nad oes risg yn gysylltiedig â hynny?

Dywedodd swyddogion fod profion trylwyr wedi cael eu cynnal ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno meini prawf newydd ar gyfer Safon Ansawdd Tai Cymru, lle mae argymhelliad bod batris bellach yn cael eu storio y tu allan i'r eiddo. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod hyn wedi creu rhywfaint o waith i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sydd bellach yn gorfod gosod cwpwrdd allanol lle gellir storio'r batri. Nid yw hyn wedi cael unrhyw oblygiadau negyddol ar y Fargen Ddinesig.

Dywedodd swyddogion hefyd, gyda'r newidiadau i safonau tai a'r datblygiad cyson, maent wedi creu'r cyfle i'r Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig edrych ar ba gynhyrchion i'w defnyddio. Teimlai swyddogion, yn achos Duracell, mae gan y batri gwpwrdd storio y gellid ei brynu hefyd fel rhan o'r ateb i'r broblem honno.

Gofynnodd yr Aelodau am swyddi a grëwyd yn ystod y 15 mlynedd diwethaf ac a oes unrhyw waith yn mynd rhagddo i fonitro prentisiaethau sydd wedi'u creu neu sydd ar y gweill oherwydd y fenter hon. Esboniodd swyddogion ei fod dros gyfnod y 15 mlynedd nesaf hyd at 2033 ac nid oedd yn ôl-weithredol.
Pan fydd buddion y prosiect yn cael eu darganfod, bydd swyddogion yn parhau i wneud ymarfer olrhain i sicrhau eu bod yn casglu cymaint o wybodaeth â phosib i ddangos beth yw buddion y prosiect. Rhan o'r cynllun hwnnw yw cofnodi faint o brentisiaethau sydd wedi cael eu creu.
Dywedodd swyddogion eu bod yn gweithio'n agos gyda phrosiect arall y Fargen Ddinesig Arall, y Rhaglen Sgiliau a Thalent, i nodi a chasglu'r wybodaeth honno hefyd.
Dywedodd Jonathan Burnes hefyd wrth aelodau fod swyddogion ar draws portffolio'r fargen ddinesig yn monitro ac yn mesur prentisiaethau ar draws y naw prosiect a rhaglen, gan eu coladu yn y rhaglen sgiliau a thalentau. Mae swyddogion hefyd yn nodi buddion cymunedol, gan gynnwys wythnosau hyfforddi hefyd. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod asesiadau ac adroddiadau ehangach wedi'u cwblhau.
Gofynnodd Aelodau Castell-nedd Port Talbot a allent ymweld â phrosiect Cartrefi fel Gorsafoedd Pŵer yn Aberafan gan eu bod wedi methu'r ymweliad safle'n flaenorol. Cytunodd swyddogion fod hyn y bosib a dywedwyd cyn gynted ag y bydd y ddau dŷ, y tai ôl-osod ym Margam Port Talbot, wedi'u cwblhau fydd croeso i aelodau ddod i ymweld â'r ddau dŷ.
Byddai swyddogion yn trefnu hyn gyda Tai Tarian.

Nodwyd yr adroddiad.

## 8. **MONITRO PORTFFOLIO CHWARTEROL BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE**

Rhoddodd Jonathan Burnes drosolwg i'r aelodau o chwarter mis Ionawr i fis Mawrth a thynnwyd sylw at rai o'r crynodebau allweddol ar lefel portffolio a'r diweddariadau i'r prosiect a'r rhaglen.
Ar y dangosfwrdd, dywedwyd wrth yr aelodau nad oes newid cyffredinol i'r statws, ond bu ychydig o symudiadau o fewn staffio ac adnoddau ar gyfer seilwaith digidol. Ar gyfer Yr Egin mae cyflwyniad wedi symud o statws gwyrdd i oren.
Ar y gofrestr risg, dywedwyd wrth aelodau fod 25 o risgiau ar lefel portffolio ar hyn o bryd, ac mae pump ohonynt yn risgiau coch. Nid oes unrhyw newid ers chwarter tri. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y pum risg coch yn ymwneud â chostau adeiladu, TAN 15 sef y mapiau rheoli perygl llifogydd, gwariant yn ystod y flwyddyn, llithriad a

chyflwyno buddion. Dywedodd swyddogion bod gan bob un ohonynt fesurau lliniaru sy'n gysylltiedig â nhw.
Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod 4 risg oren a oedd wedi'u cau ers adroddiad chwarter tri, ac mae'r rhain yn ymwneud â'r amserlen ar gyfer diwedd rhaglenni ariannu presennol yr UE sydd wedi'i chwblhau. Y £5.3 miliwn sydd heb ei ddyrannu o gyllid y fargen ddinesig sydd bellach yn cael ei ddyrannu drwy Gyngor Castell-nedd Port Talbot ar gyfer gweithrediadau canolfan sgiliau Swyddfa Rheoli'r Portffolio Symudodd gweithrediadau Swyddfa Rheoli'r Portffolio o'r gofrestr risgiau i'r rhestr broblemau oherwydd mae Ian Williams wedi ymadael. Tynnwyd diffyg presenoldeb aelodau Cyfetholedig yn y byrddau rhaglenni a rhaglenni ar y cyd s'r cyd-bwyllgor oddi ar y rhestr risgiau oren, gan eu bod bellach yn dod i'r cyfarfodydd ac mae swyddogion yn parhau i fonitro'r rheini.
Dywedodd swyddogion nad oes unrhyw broblemau coch a'r unig broblem goch flaenorol oedd cytundeb cyllido campws sydd bellach wedi'i lofnodi a'i ddatrys, a gall hynny ddod oddi ar y gofrestr broblemau erbyn hyn.
O ran yr adroddiadau chwarterol, roedd cynnydd yn nifer y swyddi a grëwyd o 567 yn chwarter tri i 597 ac mae'r buddsoddiad wedi cynyddu o £272 miliwn i £289 miliwn.
O ran yr asesiad effaith adeiladu, dywedwyd wrth yr aelodau fod achosion busnes wedi'u hysgrifennu a'u bod bellach yn mynd i gaffael i edrych ar beth yw'r bwlch ariannu rhwng yr hyn yr oedd swyddogion yn credu y byddai'n ei gostio a'r hyn y mae'n ei gostio.
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai £43 miliwn yw'r prif fwlch ond drwy'r mesurau lliniaru a nodir yn yr adroddiad, mae bellach wedi lleihau i £12 miliwn, ac mae swyddogion yn parhau i weithio ar y mesurau lliniaru ar gyfer yr effaith weddilliol honno.
Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai nod y mesurau lliniaru allweddol yw sicrhau cyllid ychwanegol, ailedrych ar y briff adeiladu a dechrau trafodaethau â'r contractwyr.
Eglurodd swyddogion mai'r prosiectau a nodwyd fel rhai sy'n profi llithriad yw'r glannau, Yr Egin, seilwaith digidol, campysau a rhaglen cefnogi arloesedd a thwf carbon isel. Mae pob un o'r rheini'n destun y broses rheoli newid ac adroddir amdanynt drwy drefniadau'r llywodraeth yn unol â hynny.
Gofynnodd yr Aelodau am y crynodeb o fuddion a nodwyd, o'i gymharu â'r adroddiad diwethaf, mae Pentre Awel wedi creu 23 o swyddi, ond ni chynhwyswyd y matrics arloesi o'r blaen, a dyma'r tro cyntaf iddo fod yn y crynodeb o fuddion hwn.
Esboniodd swyddogion fod y Matrics Arloesi bron wedi cael ei gwblhau, ac maent wedi creu swyddi adeiladu. Roedd swyddogion wedi meddwl eu bod wedi adrodd ar rai o'r blaen, ond mae'r chwech

sydd wedi eu nodi yn y chwarter hwn yn debygol o gynyddu eto yn ystod chwarteri yn y dyfodol. Esboniodd swyddogion eu bod y gallu adrodd unwaith y bydd y contractwr a'r isgontractwyr wedi adrodd am nifer y swyddi sydd wedi cael eu creu, yn enwedig drwy waith adeiladu ac unwaith y byddant yn weithredol. Yna mae'r pwyslais ar y sefydliadau ynddo a sut maen nhw'n tyfu. Dywedodd swyddogion efallai bydd angen gwerthuso'r rhain ar wahân.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y matrics arloesi wedi'i gwblhau, ac mae'n destun gwaith gosod mewnol er mwyn i denantiaid breswylio ynddo dan arweiniad Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Gofynnwyd i swyddogion a fydd y swyddi hyn yn cael eu cynnwys yng nghrynodeb buddion yr adroddiad neu a ydynt yn mynd i symud i rywle arall?

Cadarnhaodd swyddogion y bydd y swyddi sydd wedi cael eu creu yn cael eu cronni yn yr adroddiad, a bydd rhagor o swyddi'n cael eu creu ar gyfer pob un o'r prosiectau fel yr adroddir amdanynt.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y 597 o swyddi'n cynnwys y rhai o gampysau'r matrics arloesi a Phentre Awel o chwarter pedwar.

Nododd yr Aelodau fod llinell wedi'i chyflwyno yn yr adroddiad nad yw wedi ymddangos mewn adroddiadau blaenorol mewn perthynas â'r crynodeb buddion ar dudalen 135. Mae'n dangos chwe swydd ychwanegol yn y matrics arloesi. Dywedodd swyddogion na ddylai hyn fod yn yr adroddiad oherwydd mae'r matrics arloesi yn rhan o achos busnes Glannau Abertawe, a dylai fod yn rhan o'r prosiect hwnnw yn lle.

Roedd swyddogion yn credu bod y swyddog a oedd yn ymdrin â hyn yn tynnu sylw at y ffaith mai dyma oedd yr ychwanegiad yn unig. Nid yw'n rhan o brif elfen Cyngor Abertawe. Mae'n rhan o brif elfen y Drindod Dewi Sant. Dylid nodi bod naw prif brosiect a rhaglen a bydd swyddogion yn cywiro hynny.

Gofynnodd yr Aelodau beth mae'r swyddogion lliniaru yn edrych arno ar gyfer y diffyg o 12 miliwn o bunnoedd

Esboniodd swyddogion fod y £12 miliwn yn ffigwr dangosol ac nad yw wedi symud ymlaen. Dywedodd swyddogion eu bod wedi nodi bwlch o £12.75 miliwn yn yr adroddiad diwethaf ac o ran y mesurau lliniaru allweddol mae yna dri ohonynt. Y cyntaf yw sicrhau cyllid ychwanegol. Gallai hyn fod trwy'r prif ddarparwr neu drwy lywodraethau neu drwy'r sector preifat. Yr ail opsiwn lliniaru yw ailedrych ar y briff adeiladu a'r trydydd yw gohirio rhai prosiectau a dechrau deialog gyda chontractwyr.

Dywedodd swyddogion eu bod yn cael llawer mwy o ddeialog gyda'r contractwyr sylfaenol a chyda'r cadwyni cyflenwi oherwydd bod gan yr isgontractwyr lawer mwy o ddeialog gyda'r prif gontractwyr hefyd

oherwydd nad ydyn nhw'n creu llawer yn y bôn ac maen nhw am sicrhau eu bod yn darparu gwaith o safon.
Nododd yr Aelodau nad oedd swyddi wedi'u targedu yn yr adroddiad buddion ond cafodd swyddi eu creu ym meysydd sgiliau a thalent a seilwaith digidol a gofynnwyd am y rhesymau dros hyn.
Gofynnodd yr Aelodau a oedd modd iddynt gael ffigwr wedi'i ddiweddaru, hyd yn oed os caiff ei e-bostio atynt am gyfanswm y swyddi, oherwydd mae 6.15% yn eithaf isel a nodwyd eu bod 3 mis ar ei hôl hi wrth adrodd.
Eglurodd swyddogion pan ysgrifennwyd yr achosion busnes, yn enwedig ar gyfer seilwaith digidol a sgiliau a thalent, eu bod yn brosiectau cwbl ranbarthol ac yn cynnwys de-orllewin Cymru gyfan. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau mai galluogwyr oedd y rhain, ac nad oeddent yn creu swyddi yn uniongyrchol. Dywedodd swyddogion fod y swyddi'n cael eu creu drwy'r prosiectau a'r rhaglenni eraill ond oherwydd bod llawer o waith yn cael ei wneud yn arbennig ar gyfer seilwaith digidol a sgiliau a thalent, mae swyddi'n cael eu creu'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol drwy'r prosiectau a'r rhaglenni.
Dywedwyd wrth yr aelodau mai dyma pam y bydd swyddi a grëwyd yn ymddangos yn yr adroddiad ond nid yw'n ofynnol yn yr achosion busnes hynny i ddangos tystiolaeth o hynny a byddant yn cael eu cynnwys drwy gydol y broses.
Dywedodd swyddogion, o ran targedau ac amseriad adroddiadau, cyn gynted ag y byddant yn mynd drwy'r cyd-bwyllgor, maent ar gael i'r cyhoedd drwy swyddogion gwasanaethau Democrataidd a bydd Jon Burnes yn sicrhau mai nhw yw'r prosiectau perthnasol gan y bydd aelodau'n debygol o fod eisiau crynodebau allweddol yn unig.
Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau hefyd fod yn rhaid i adroddiadau rhai swyddi gael eu gwerthuso i benderfynu ar yr hyn y mae swyddogion yn ei ddweud. Bydd hyn yn gwneud pethau'n anoddach o ran cael ffigurau union gywir ac esboniwyd er ei bod ar 6% ar hyn o bryd, mae swyddogion yn gwybod bod y ffigur hwn yn uwch, ond nid ydynt wedi cynnal y gwerthusiadau i'w gymhwyso.
Esboniodd swyddogion os ydych yn mynd i wirio'r hawliadau a wnaed gan bobl o'ch blaen, yn enwedig y rhai anuniongyrchol, yna mae'r rhai uniongyrchol yn hawliadwy oherwydd bod llwybr archwiliadwy. Ar gyfer swyddi mwy anuniongyrchol a grëwyd o ganlyniad i adeiladu, mae'n rhaid iddynt fynd trwy broses werthuso gyda'r dystiolaeth i sicrhau ei fod yn cael ei wirio'n allanol (yn ddelfrydol), ond gellid ei wirio'n fewnol hefyd.
Nododd yr aelodau eu bod yn gweld hyn fel 6% o'r swyddi a gyflawnwyd. Ond efallai bydd y cyhoedd yn darllen hyn fel 94% sydd heb ei gyflwyno a gofynnwyd a fyddai modd ystyried hyn fel rhywbeth negyddol ar gyfer y prosiect.

Gofynnodd yr Aelodau hefyd a ydy hyn yn debyg i'r problemau gyda'r Gwerth Ychwanegol Gros gan eu bod yn eithaf anodd eu meintioli? Defnyddiodd yr aelodau Yr Egin fel enghraifft o adeilad sydd wedi bod ar waith ers tro ac mae ganddo 117 allan o'r 400 o swyddi.
Gofynnodd yr Aelodau a oedd Cam 2 Yr Egin yn mynd i gyflawni'r 300 o swyddi eraill pan fydd hynny wedi'i gwblhau?
Gofynnodd yr Aelodau a yw hyn oherwydd mae'r ffigurau o'r busnes cychwynnol yn anodd eu cyflawni neu a oes modd cyflawni unrhyw un ohonynt yn realistig oherwydd yr holl newidiadau sydd wedi digwydd.
Dywedodd swyddogion mai blwyddyn wyth yw hon ar hyn o bryd ac roedd achos o gamgychwyn gyda'r Fargen Ddinesig ar y dechrau a chael yr holl achosion busnes drwy'r broses gymeradwyo, ond mae bellach ar y trywydd iawn ar gyfer cyflawni, mae swyddogion yn credu bod modd cyflawni hyn yn realistig.
Mewn perthynas â gwerthusiadau, mae Swyddogion wedi dweud eu bod wedi cynnal gwerthusiad, a dyma'r gwerthusiad cyntaf o fargen ddinesig ac nid yw wedi cael ei adrodd drwy unrhyw fwrdd llywodraethu.
Yn ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol hon, bydd aelodau'n gweld, ac yn gallu craffu ar, y gwerthusiad cyntaf, sef Yr Egin, gan edrych ar effaith economaidd cam un Yr Egin a fydd yn cynnwys swyddi ac amrywiaeth o bethau eraill hefyd. Ni allent fod wedi gwneud gwerthusiad yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, ac roedd angen blwyddyn weithredol lân arnynt ac felly gwerthuswyd 22/23 fel y flwyddyn weithredol.
Rhoddwyd arena Abertawe i'r aelodau fel enghraifft hefyd. Bydd angen blwyddyn neu ddwy o weithredu arni cyn y gallant ei gwerthuso. Esboniodd swyddogion eu bod yn mynd i werthuso'r arena i edrych ar yr effaith economaidd ehangach, gan gynnwys swyddi, fel rhan o hynny.
Gobaith swyddogion yw y bydd y fframwaith gwerthuso'n tawelu rhai o'r pryderon ynghylch y ffigurau oherwydd bydd yn cyrraedd wrth i adeiladau ddechrau gweithredu ac wrth effaith ehangach y rheini ymddangos.
Nododd yr Aelodau fod y prosiectau'n cael effaith enfawr o ran adfywio a phositifrwydd ar gyfer y rhanbarth, ar draws y rhanbarth.
Dywedodd yr aelodau eu bod yn edrych ymlaen at werthusiad Arena Abertawe oherwydd mae 25 o swyddi llawn amser a nodwyd bod llawer o swyddi rhan-amser eraill o'i gwmpas yn The Green Room.
Teimlai'r Aelodau y bydd yn hanfodol iddynt ddeall sut y caiff y broses honno ei chynnal oherwydd dyna sail yr hyn y mae'r fargen ddinesig yn ei olygu a dywedwyd ei fod yn hynod bwysig fod y broses honno'n dryloyw ac ar gael i'r cyhoedd hefyd.

Dywedodd swyddogion eu bod, ar lefel portffolio, wedi cynnal rhai digwyddiadau 'Cwrdd â'r Fargen Ddinesig' yn ystod y chwarter diwethaf a nodwyd yn y digwyddiad yn Orendy Margam yng Nghastell-nedd Port Talbot roedd dros 100 o bobl yn bresennol. Bydd rhan o'r adroddiad blynyddol yn siarad am bedwar digwyddiad Cwrdd â'r Fargen Ddinesig yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot.

Teimlai'r swyddogion eu bod yn hynod fuddiol a llwyddiannus.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod y llithrfa a'r pontynau ym Mhrosiect Morol Doc Penfro bellach yn dechrau cael eu defnyddio ac mae llawer o'r prosiectau eraill ym Mharth Doc Penfro bellach yn sicrhau ac yn trosoli cyllid trwy fecanweithiau eraill ac roedd swyddogion yn hapus i weld y gweithgarwch y tu ôl i'r seilwaith.

O ran campysau, mae'r cytundeb cyllido bellach wedi'i lofnodi ac mae'r broses o greu ail-broffil ar y gweill ac ers cyhoeddi'r adroddiad, bu cynnydd gyda'r broses gaffael ar gyfer cam un Singleton.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau, o ran cefnogi arloesedd a thwf carbon isel, y maes allweddol yw Canolfan Dechnoleg y Bae. Mae'r adeilad gyda deiliadaeth o ychydig dros 50% ac mae rhestr o ymholiadau ar gyfer y swyddfa a'r labordy sydd ar gael.

Dywedodd swyddogion, o ran y prosiect monitro ansawdd aer, mae cwmni o'r enw Ricardo sydd wedi gwneud adroddiad adolygu, ac maent yn cyflwyno hynny i'r bwrdd ac yn edrych ar beth yw'r camau nesaf.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod Pentre Awel yn symud ymlaen ac mae dros 2000 o wythnosau hyfforddi yn y cyfnod adeiladu hyd yma. Mae ganddynt 31 o brentisiaethau sy'n cael eu cynnal yn yr adeilad ac mae 44 o ymgeiswyr newydd. Ar hyn o bryd mae Pentre Awel yn gweithio ar ddiweddaru eu hachos busnes. Bydd hyn yn eu helpu i ail-broffilio achosion economaidd, masnachol ac ariannol eu hachos busnes ar gyfer parth un a pharthau'r dyfodol (2,3 a 4).

Mewn perthynas â seilwaith digidol, maent wedi derbyn eu cronfa fuddsoddi 5G gyntaf sy'n gysylltiedig â phrosiect y campysau, ac mae swyddogion yn ystyried hyn fel enghraifft dda o gyfnewid syniadau ar draws y portffolio ac mae ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau.

Dywedodd swyddogion fod yr ymarfer caffael cam un ffibr tywyll wedi'i gwblhau, ac mae'r cyflenwr a ffefrir wedi'i benodi.

O ran y glannau, rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod datblygiadau'r gwesty yn mynd gerbron y Cabinet yr wythnos diwethaf er mwyn iddynt wneud penderfyniad ynghylch penodi cydweithredwr a ffefrir ynghylch beth yw gwesty'r Arena.

Dywedodd swyddogion fod llawer o waith yn digwydd gyda 171 Ffordd y Brenin ynghylch tenantiaid darpar denantiaid.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod y matrics arloesi'n gwneud cynnydd da ac yn ôl y cynllun, maent yn gwneud y gwaith gosod nawr er mwyn i'r tenantiaid symud i mewn cyn gynted â phosibl o fewn y mis nesaf.

Mewn perthynas ag Yr Egin, dywedwyd wrth yr aelodau ei fod yn symud ymlaen i gam dau ac maent yn edrych ar ba gais am newid y mae ei angen i wneud hynny'n bosib. Nid yw swyddogion wedi derbyn unrhyw beth ffurfiol gan y Drindod Dewi Sant ynghylch hynny hyd yn hyn.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau hefyd eu bod bellach wedi cyrraedd 19 o brosiectau peilot, ac roedd swyddogion yn meddwl bod hynny'n wych, yn enwedig oherwydd mae'r rhain wedi cael eu gwasgaru ar draws yr holl sectorau gwahanol a'r holl ddarparwyr hyfforddiant gwahanol a chwmnïau sector preifat sy'n wych o safbwynt swyddog.

Nodwyd yr adroddiad.

9. **<u>FFRAMWAITH GWERTHUSO BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE</u>**

Rhoddodd Jonathan Burnes drosolwg i'r aelodau o'r Fframwaith Gwerthuso yn unol â'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod hyn yn ymwneud â dod â phopeth a oedd yn digwydd yn y gorffennol at ei gilydd a'i grynhoi mewn dogfen y mae pawb yn gallu ei darllen ac yna creu cynllun i edrych ar beth, sut, pryd a phwy fydd yn gwerthuso.

Dywedodd swyddogion fod cwestiwn cyntaf y fframweithiau'n ateb pam eu bod yn gwerthuso ac esboniwyd ei bod yn hanfodol ar gyfer dangos effaith y fargen ddinesig dros ei hoes a bod swyddogion wedi cael llawer o adborth drwy graffu, gyda'r pwyllgor hwn a thrwy archwiliad ac adolygiadau sicrwydd 'Gateway' sy'n edrych ar bwysleisio sut y gellid dangos tystiolaeth o fuddion erbyn hyn a dechrau adrodd amdanynt drwy'r Fargen Ddinesig.

Dywedodd Jonathan Burnes ei fod yn cadeirio sesiwn werthuso grŵp tasg a gorffen a bu'n goruchwylio datblygiad y fframwaith.

Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen yn cynnwys arweinwyr rhaglen y prosiect ac aelodau tîm Swyddfa Rheoli'r Portffolio a oedd wedi cyfarfod yn fisol ac a lywiodd y fframwaith i fod yr un yn yr adroddiad.

Edrychwyd ar sicrhau ei fod yn ymarferol o ran yn yr hyn roedden nhw'n ceisio'i gyflwyno. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai diben y fframwaith yw edrych ar y rhesymeg, yr egwyddorion, y rolau a'r cyfrifoldebau a'i fethodoleg.

Sut ydych chi'n cyfrifo'r pethau hyn? Sut y cafodd ei gyflwyno a bod yn agored a thryloyw ynghylch yr ymagwedd honno.

Esboniodd swyddogion eu bod am edrych ar ddau werthusiad canol tymor a gwerthusiad terfynol ar gyfer y portffolio. Bydd yn seiliedig ar

flynyddoedd 1 i 7 ar gyfer gwerthusiad canol tymor ac yna byddai'r ail werthusiad hanner tymor rhwng 25/26 hyd at 2029/30. Bydd y gwerthusiad terfynol yn 2032/33, a dyna pryd y bydd 15 mlynedd y portffolio'n dod i ben.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod pob prosiect a rhaglen yn y ddogfen wedi'u rhestru gydag amserlen o ran yr hyn a fydd yn cael ei werthuso a phryd.

Mae swyddogion wedi gweithio gyda'r holl brosiectau a rhaglenni, ac maent yn eu rhoi mewn drafft, ac mae'r rhain yn cael eu coladu mewn proffil gwerthuso yn y swyddfa bortffolio. Bydd y proffil yn crynhoi pob gwerthusiad y bydd prosiectau'n ei wneud, yr hyn y bydd hynny'n ei olygu a phwy fydd yn ei gynnal. Dywedodd swyddogion nad ydyn nhw am ddechrau gwerthuso pethau er mwyn gwerthuso ac maent am ei wneud ar yr adeg gywir.

Bydd y fframwaith yn rhan o ddogfen fawr o'r enw'r cynllun gwerthuso monitro. Bydd swyddogion yn gwneud yr adroddiadau monitro, sef y gwerthusiadau sy'n helpu i gefnogi'r adroddiadau hynny.

Roedd yr Aelodau'n teimlo bod y fframwaith yn dda ond ar eitem 7, mewn perthynas â llywodraethu a goruchwyliaeth dylai gynnwys testun am graffu fel bod pobl yn ymwybodol bod swyddogaeth graffu i'w chyflawni yn enwedig gan fod y ddogfen yn un o'r dogfennau pwysicaf y mae'r pwyllgor yn craffu arni'n rheolaidd.

Cytunodd y swyddogion a nodwyd mai un cyfeiriad yn unig sydd at graffu ac mae hynny'n ymwneud mwy â'r mewnbwn yn hytrach na'r broses felly byddant yn bwydo hynny yn ôl drwy'r broses lywodraethu ac yn ychwanegu rhagor o eiriau.

Dywedodd Jonathan Burnes ei fod yn gallu ysgrifennu testun, neu mae'n fodlon derbyn unrhyw naratif y mae pobl am ei weld ynddo ac yna adolygu'r testun hwnnw gydag aelodau'r pwyllgor pe byddai hynny'n helpu i'w roi yn y fersiwn nesaf o'r fframwaith, sef 1:09:38

Gofynnodd yr aelodau a yw gwerth ychwanegol gros yn ymddangos yn y ddogfen.

Cadarnhaodd swyddogion fod gwerth ychwanegol gros yn ymddangos ynddi ddwywaith ac y gellir defnyddio gwerth ychwanegol gros o hyd gan ei fod yn yr achosion busnes fel rhan o werthusiad economaidd o'r broses. Dywedodd swyddogion nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i'r prosiectau a'r rhaglenni roi gwybod am werth ychwanegol gros oherwydd na allwch briodoli gwerth ychwanegol gros i adeilad, fodd bynnag, os gall rhywun gwneud hynny, yna byddant yn ei dderbyn.

Dywedodd yr aelodau, os yw swyddogion yn defnyddio pethau fel gwerth ychwanegol gros ar wefannau a dogfennau, yna byddant yn dal swyddogion i safonau gwerth ychwanegol gros.

Nododd yr Aelodau mewn cyfarfod blaenorol eu bod wedi gofyn am llythyr at Gadeirydd y Cyd-bwyllgor Corfforaethol sy'n ymwneud â defnyddio gwerth ychwanegol gros a gofynnwyd a dderbyniwyd ateb. Cadarnhaodd swyddog y gwasanaethau democrataidd fod ateb wedi'i dderbyn a'i fod ar yr agenda ar gyfer y cyfarfod diwethaf. Dywedodd swyddogion eu bod yn hapus i gynnwys gwerth ychwanegol gros os gallant roi tystiolaeth ar ei gyfer. Ond maen nhw am sicrhau eu bod yn gallu dangos tystiolaeth o'r dangosyddion effaith economaidd y maen nhw'n eu defnyddio. Ar hyn o bryd ni allant wneud hynny gyda gwerth ychwanegol gros.

Nodwyd yr adroddiad.

10. **BLAENRAGLEN WAITH 2024/25**

Nododd Aelodau'r Pwyllgor y Flaenraglen Waith a chawsant yr wybodaeth ddiweddaraf am y sesiwn Flaenraglen Waith arfaethedig sydd i'w threfnu.

11. **EITEMAU BRYS**

Ni chafwyd unrhyw eitemau brys.

TRAILER_SECTION>

**CADEIRYDD**